Having reviewed the Ministerial Codes of the HoC and of the devolved administrations of the UK I conclude that the Welsh Code is as comprehensive as other codes, if not more detailed in some respects. However, a weakness of these codes is that the decision to instigate an investigation remains with the FM/PM, except in Northern Ireland. It could therefore be concluded that the current arrangements do not result in accountability being fully discharged. Legislative change is likely to be needed to rectify this defect.

¹⁸ <https://gcs.civilservice.gov.uk/guidance/professional-standards/propriety/propriety-in-digital-and-social-media/>

**CMMC04 Juliet Swann, Nations and Regions Programme Manager,
Transparency International UK**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Public Accounts
and Public Administration Committee

Llawlyfr y Cabinet a Chod y Gweinidogion | The Cabinet manual and the
Ministerial code

Ymateb gan: Juliet Swann, Nations and Regions Programme Manager,
Organisation | Evidence from: Juliet Swann, Rheolwr Rhaglen y Gwledydd a'r
Rhanbarthau, Transparency International UK

THE CABINET MANUAL AND THE MINISTERIAL CODE PUBLIC ACCOUNTS AND PUBLIC ADMINISTRATION COMMITTEE INQUIRY

Transparency International UK Submission – August 2024

SUMMARY

Trust in politics is perilously low. Polling shows the majority of people believe that politicians are 'out for themselves' and that the system of government is rigged to the advantage of the rich and powerful.¹

Perceptions of undue secrecy or conflicts of interest further damage public trust in institutions as well as individuals. Research from Carnegie UK shows that democratic wellbeing is both a means to greater social, economic and environmental wellbeing and an end in itself, impacting directly on personal wellbeing.²

Recent events in Wales including donations received by the former First Minister, transparency around informal messaging app use during the Covid-19 pandemic, and the leaking of messages from a group chat, have brought into question the adequacy of current checks to protect integrity in high office.³ Presently, the First Minister of the day produces a code of conduct outlining the standards expected of their colleagues, which they alone have the ability to enforce.

Transparency International UK welcomes the Public Accounts and Public Administration Committee Inquiry into the Ministerial Code. To rebuild trust and ensure consistent upholding of the standards of integrity in public office, we recommend that the Ministerial Code:

- Be placed on a statutory footing.
- Include an explicit commitment to the seven Principles of Public Life (the Nolan principles) in a First Minister's foreword.
- Allow for the appointment of an Independent Adviser on Ministerial Interests with the ability to initiate and set the terms of investigations into breaches of the code without needing the explicit consent of the First Minister.
- Provide enhanced transparency over ministerial activities by committing to publishing ministerial meetings on a monthly basis and affirm that meetings which occur in a social setting which discuss official business should also be declared publicly.
- Extend the requirement to record meetings to Special Advisers in order to better understand the full range of influence on Ministers.

¹ Polling undertaken on behalf of the UK Anti-Corruption Coalition in September 2023

<https://www.ukanticorruptioncoalition.org/work/report-reflections-trust-politics>

² Democratic wellbeing is one of the four domains identified by Carnegie UK as contributing to collective wellbeing, the others being social, economic and environmental wellbeing. <https://carnegieuktrust.org.uk/publications/gdwe-a-spotlight-on-democratic-wellbeing/>

³ <https://www.transparency.org.uk/vaughan-getting-impeachment-ready-must-now-be-investigated>

TI-UK'S RESPONSE TO THE TERMS OF REFERENCE OF THE INQUIRY

1. STRENGTHENING THE MINISTERIAL CODE

We have several long-standing recommendations to strengthen the Ministerial Code and improve the transparency of ministerial accountability.

1.1 PLACING THE MINISTERIAL CODE ON A STATUTORY FOOTING

Transparency International UK recommend all Ministerial Codes be placed on a statutory footing. This law requiring the publication of a Ministerial Code of Conduct would include that in setting the rules of conduct, the Nolan Principles should be used as a guide. While the protections of statute have their limits, they provide a much stronger set of defences than the existing arrangements. Putting the Ministerial Code on a statutory footing would ensure a First Minister was unable to choose not to adopt a Ministerial Code of Conduct. This statutory protection should also be viewed in-light of parallel and sometimes overlapping arrangements for ensuring integrity in high-office, including lobbying transparency.⁴

1.2 A COMMITMENT TO THE NOLAN PRINCIPLES

To further embed the Nolan Principles at the heart of the Ministerial Code, we recommend that the Code include a foreword from the First Minister and for that foreword to explicitly commit Ministers to these principles of public life.

1.3 THE APPOINTMENT OF AN INDEPENDENT ADVISER

Unlike in the UK and Scottish Governments, Wales lacks an independent adviser, relying instead on the Permanent Secretary. However, even with an independent adviser, instigating an inquiry and the parameters of the work in these jurisdictions remains in the gift of the Prime Minister or the First Minister of Scotland. There is no formal recruitment process and no official role for Parliament. The patronage this endows on the PM and the FM of Scotland creates an unacceptable risk of jeopardising the adviser's independence.

Transparency International UK recommends the Welsh Government appoint an independent adviser on ministerial interests with that appointment being undertaken through a transparent process, removed from the First Minister.

The role will require the resources and powers necessary to deliver on its objectives. Without these it will inevitably fall short of the task at hand. Establishing sufficient, independent and sustainable resourcing to support this role is crucial to protecting it from being hobbled by political interference. In order to establish the facts of each case, the independent adviser should have the power to obtain relevant documents, data and details in a timely manner. Giving them this power and meaningful penalties for those who do not comply, would help to ensure they can collect all relevant facts and conduct their role properly.

In adopting this model, Wales could set a precedent within the UK of ensuring operational autonomy for the office that monitors and enforces adherence to the Ministerial Code.

1.4 REPORTING OF MINISTERIAL MEETINGS AND ENGAGEMENTS

Across the UK, reporting of ministerial engagements is ineffective and provides little insight for the public into what is being discussed in meetings with stakeholders. The lag in reporting these

⁴ Transparency International UK submitted written evidence to the Senedd Standards of Conduct Committee Inquiry into lobbying transparency in 2022 <https://www.transparency.org.uk/publications/submission-welsh-senedd-standards-conduct-committee-lobbying-inquiry>

meetings also diminishes its value and makes it harder to see where meetings might be influencing decision making. We recommend publishing ministerial meetings and engagements on a monthly basis. Analysis from Canada in 2021 shows it takes an average of 28 days from the day of a communication to publish similar information with almost one in ten of these disclosures released within five days of the communication taking place. In the EU, publication of meetings with European Commissioners is required within two weeks of them taking place.

We also expect the ministerial code to determine that meetings which occur in a social setting which discuss official business should also be declared publicly.

In Wales we specifically see a lack of transparency in that only the 'who' of a meeting not the 'what' is reported. This is less information than either the Scottish or UK governments provide. We would recommend a short summary of the discussion outlining any public interest it served and including any specific outcomes.

We would also urge the separation of the English and Welsh language submissions, rather than the two being in the same spreadsheet cell as this makes analysing the data difficult. Per Data Cymru, "open data is data that is published in a way that allows anyone to freely and easily access and use it".⁵ As they are currently formatted, the Welsh Ministerial Meetings and Engagements datasets do not meet this definition.

1.5 SPECIAL ADVISERS

Special Advisers (SpAds) are appointed by and responsible to Ministers so should be covered by the same principles of accountability in order that the influence on and actions of any Minister can be fully understood. In acting as a direct link between stakeholders and Ministers the external meetings SpAds undertake should be recorded and reported so it is possible to better understand any influence had on Ministers.

1.6 SANCTIONS

The Ministerial Code should provide clarity on the range of sanctions available should a breach be found to have occurred. This will both instil confidence that there are sanctions available which seem proportionate, with the most egregious breaches subject to more serious sanctions. This should also act as a deterrence to wrongdoing and aid any determination process as there would be a clear expected sanction.⁶

2. THE CABINET MANUAL

In order for the public to adequately understand the application of rules and how Ministers are held to account, it is necessary for them to be able to view the guidance that relates to those accountability mechanisms.

Being clear on how something happens, for instance, how a decision made using a messaging app is transferred to the official record, is important to engender public trust in the system. Trust has to be demonstrated not simply stated.

To provide for this scrutiny, we recommend that the Welsh Government Cabinet Handbook be published,⁷ alongside any other relevant guidance, including around how emails and informal communications are recorded.

⁵ <https://www.data.cymru/open-data>

⁶ Further detail on our recommendations for complaints procedures can be found at [4 below](#).

⁷ It may be necessary for some elements to be withheld from publication for security reasons, but the principle of proactive publication remains.

3. MINISTERIAL CODES IN THE UK⁸

Whilst ministerial codes across the UK are broadly similar in content and how they are enforced there are some notable exceptions.

3.1 STATUTORY FOOTING

The Northern Ireland Executive Ministerial Code (“NIE Ministerial Code”) is required by the Northern Ireland Act 1998 (as amended). It is the only Ministerial Code in the UK that has a statutory basis. Section 28A of the Northern Ireland Act 1998 provides that there must be a Ministerial Code and that it can only be changed with cross-community agreement in the Northern Ireland Assembly. We recommend the Ministerial Code be placed on a statutory footing.

3.2 INDEPENDENT ADVISERS

As noted above, Wales is unique in not having an independent adviser on the ministerial code. We note that on a previous occasion the independent adviser in Scotland undertook an investigation on behalf of the First Minister of Wales. A shared role would provide an opportunity to pool resources.

Transparency International UK recommends that all Ministerial Codes across the UK apply the recommendations we have provided in this consultation response, albeit the different parliamentary institutions will have to decide routes for enforcement based on their own structures.

4. COMPLAINTS UNDER THE MINISTERIAL CODE AND THE ROLE OF INDEPENDENT ADVISERS

As noted at [1.3](#) above, we recommend that genuinely independent advisers be appointed and provided with adequate resource and powers to investigate any alleged breaches of the code.

Whilst the decision of who should take on Ministerial roles will always be for the First Minister, we recommend a ‘back-stop’ process should there be a case where the First Minister fails to take action on the results of any independent investigation.

This procedure could follow the model of the current process undertaken by the Senedd Commissioner for Standards, with decisions on sanctions being taken by the Standards of Conduct Committee and debated by the full Senedd.

Regardless, to avoid political capture of the committee process, we recommend that the Senedd follow the example set by the Committee on Standards at Westminster and appoint lay members. These lay members should always be involved in consideration of complaints and sanctions, of both Members of the Senedd and if the process is applied to them, Ministers.

5. THE ROLE OF CIVIL SERVANTS IN APPLYING THE MINISTERIAL CODE

Experience from Scotland suggests that civil servants, whilst available for advice, should not be charged with investigation of alleged breaches of the ministerial code. The process should be at arms-length from the operations of government as the relationships between Ministers and civil servants could be perceived to present a conflict of interest.

This would both serve to ensure that the investigation was *seen* to be independent as well as *being* independent of government. It would also serve to protect the civil service who should not be at risk of being considered to have made any partial decisions about the investigation based on their responsibilities to the government of the day.

⁸ The Scottish Parliament Information Centre (SPICe) produced a briefing on Ministerial Codes of Conduct in the UK to inform the Citizen Participation and Public Petitions Committee consideration of PE1935 which offers a helpful overview <https://www.parliament.scot/-/media/files/committees/citizen-participation-and-public-petitions-committee/spice-briefings/spice-follow-up-briefing-on-pe1935.pdf>

6. ELECTRONIC MESSAGING APPS AND THE MINISTERIAL CODE

The deletion of electronic messages since the ubiquitous use by those in government of applications such as WhatsApp has posed serious challenges for Freedom of Information and subsequent inquiries into the Covid-19 pandemic. To avoid this recurring, we recommend:

6.1 RETENTION OF INFORMATION

Policies for information retention should be revised to reflect digital-first modes of communication and administration and should be included in the Ministerial Code of Conduct with clarity on how communications using mobile devices or apps should be transferred to the historical record and made public.

6.2 DISCLOSING OF INFORMATION

Publicly disclosing information which Ministers have failed to record in line with the Code of Conduct should be treated as an act of whistleblowing with the associated protections. Any investigation to determine if the disclosure was in the public interest should be conducted by an independent investigator and the findings made public, including lessons learned for future record keeping.

WHO WE ARE

Transparency International UK is the UK-based chapter of Transparency International, the world's leading non-governmental anti-corruption organisation. We raise awareness about corruption; advocate legal and regulatory reform at national and international levels; design practical tools for individuals and companies wishing to combat corruption; and act as a leading centre of anti-corruption expertise. We base our advocacy on robust research, and, as a registered charity, are independent and non-political. We support the Open Government Partnership and the principles it espouses and are a member of the UK Open Government Network and co-chair the Open Government Scotland Steering Group.

CONTACT

Juliet Swann, Nations and Regions Programme Manager 

**CMMC04 Juliet Swann, Rheolwr Rhaglen y Gwledydd a'r Rhanbarthau,
Transparency International UK**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Public Accounts
and Public Administration Committee

Llawlyfr y Cabinet a Chod y Gweinidogion | The Cabinet manual and the
Ministerial code

Ymateb gan: Juliet Swann, Nations and Regions Programme Manager,
Organisation | Evidence from: Juliet Swann, Rheolwr Rhaglen y Gwledydd a'r
Rhanbarthau, Transparency International UK

LLAWLYFR Y CABINET A CHÔD Y GWEINIDOGION YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS A GWEINYDDIAETH GYHOEDDUS

Cyflwyniad Transparency International UK – Awst 2024

CRYNODEB

Mae ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth yn beryglus o isel. Mae arolygon barn yn dangos bod y mwyafrif o bobl yn credu bod gwleidyddion 'ynnddi er eu mantais eu hunain' a bod y system lywodraethu wedi'i rigio er budd y cyfoethog a'r pwerus.¹

Mae canfyddiadau o gyfrinachedd diangen neu wrthdaro buddiannau yn niweidio ymhellach ffydd y cyhoedd mewn sefydliadau yn ogystal ag unigolion. Mae ymchwil gan Carnegie UK yn dangos bod llesiant democrataidd yn fodd i wella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac yn ddiben ynddo'i hun, gan effeithio'n uniongyrchol ar lesiant personol.²

Mae digwyddiadau diweddar yng Nghymru, gan gynnwys rhoddion a dderbyniwyd gan y cyn Brif Weinidog, tryloywder ynghylch y defnydd o apiau negeseuon anffurfiol yn ystod pandemig Covid-19, a negeseuon yn cael eu gollwng o sgwrs grŵp, wedi codi amheuaeth ynghylch digonolrwydd y gwiriadau presennol i ddiogelu uniondeb y rhai sydd mewn swyddi uchel.³ Ar hyn o bryd, mae Prif Weinidog Cymru'n llunio côd ymddygiad sy'n amlinellu'r safonau a ddisgwylir gan eu cyd-Aelodau, a nhw'n unig sydd â'r gallu i'w gorfodi.

Mae Transparency International UK yn croesawu Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Gôd y Gweinidogion. Er mwyn ailadeiladu ymddiriedaeth a sicrhau bod safonau uniondeb mewn swyddi cyhoeddus yn cael eu cynnal yn gyson, rydym yn argymhell bod Côt y Gweinidogion:

- Yn cael ei osod ar sail statudol.
- Yn cynnwys ymrwymiad penodol i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (egwyddorion Nolan) mewn rhagair gan Brif Weinidog Cymru.
- Yn caniatáu ar gyfer penodi Cynghorydd Annibynnol ar Fuddiannau Gweinidogion sydd â'r gallu i gychwyn a gosod telerau ymchwiliadau i achosion o dorri'r côd heb fod angen caniatâd penodol y Prif Weinidog.
- Yn darparu mwy o dryloywder ynghylch gweithgareddau gweinidogion trwy ymrwymo i gyhoeddi cyfarfodydd gweinidogol yn fisol a chadarnhau y dylai cyfarfodydd sy'n digwydd mewn lleoliad cymdeithasol lle caiff busnes swyddogol ei drafod hefyd gael eu datgan yn gyhoeddus.
- Yn ymestyn y gofyniad i gofnodi cyfarfodydd i Gynghorwyr Arbennig er mwyn deall yn well yr ystod lawn o ddylanwad ar Weinidogion.

¹ Cynhaliwyd arolwg barn ar ran Clymblaid Gwrth-lygredd y DU ym mis Medi 2023

<https://www.ukanticorruptioncoalition.org/work/report-reflections-trust-politics>

² Mae llesiant democrataidd yn un o'r pedwar maes a nodwyd gan Carnegie UK fel rhai sy'n cyfrannu at lesiant cyfunol, a'r lleill yw llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

<https://carnegieuktrust.org.uk/publications/gdwe-a-spotlight-on-democratic-wellbeing/>

³ <https://www.transparency.org.uk/vaughan-getting-into-the-lead-how-must-now-be-investigated>

1. CRYFHAU CÔD Y GWEINIDOGION

Mae gennym nifer o argymhellion hirsefydlog ar gyfer cryfhau Côt y Gweinidogion a gwella tryloywder atebolrwydd gweinidogion.

1.1 GOSOD CÔD Y GWEINIDOGION AR SAIL STATUDOL

Mae Transparency International UK yn argymhell y dylid gosod pob Côt Gweinidogol ar sail statudol. Byddai'r gyfraith hon sy'n gofyn am gyhoeddi Côt Ymddygiad Gweinidogol yn cynnwys y dylid defnyddio Egwyddorion Nolan fel canllaw wrth osod y rheolau ar gyfer ymddygiad. Er bod terfynau i'r amddiffyniad a gynigir gan ddeddfau o'r fath, maent yn darparu set lawer cryfach o amddiffynfeydd na'r trefniadau presennol. Byddai gosod Côt y Gweinidogion ar sail statudol yn sicrhau na fyddai Prif Weinidog yn gallu dewis peidio â mabwysiadu Côt Ymddygiad Gweinidogol. Dylid ystyried yr amddiffyniad statudol hwn hefyd yng ngoleuni trefniadau cyfochrog sydd weithiau'n gorgyffwrdd ar gyfer sicrhau uniondeb mewn swyddi uchel, gan gynnwys tryloywder o ran lobïo.⁴

1.2 YMRWYMIAD I EGWYDDORION NOLAN

Er mwyn gwreiddio Egwyddorion Nolan ymhellach wrth galon Côt y Gweinidogion, rydym yn argymhell bod y Côt yn cynnwys rhagair gan y Prif Weinidog ac y dylai'r rhagair hwnnw ymrwymo Gweinidogion yn benodol i'r egwyddorion hyn ar gyfer bywyd cyhoeddus.

1.3 PENODI CYNGHORYDD ANNIBYNNOL

Yn wahanol i Lywodraethau'r DU a'r Alban, nid oes gan Gymru gynghorydd annibynnol, gan ddibynnu yn lle hynny ar yr Ysgrifennydd Parhaol. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda chynghorydd annibynnol, mae cychwyn ymchwiliad a ffiniau'r gwaith yn yr awdurdodaethau hyn yn dal yn nwylo Prif Weinidog y DU neu Brif Weinidog yr Alban. Nid oes proses recriwtio ffurfiol na rôl swyddogol ar gyfer Senedd y DU na'r Alban. Mae'r nawddogaeth a ddaw i Brif Weinidogion y DU a'r Alban yn sgil hyn yn creu risg annerbyniol o beryglu annibyniaeth y cynghorydd.

Mae Transparency International UK yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n penodi cynghorydd annibynnol ar fuddiannau gweinidogion, gyda'r penodiad hwnnw'n cael ei wneud trwy broses dryloyw, a hynny ar wahân i'r Prif Weinidog.

Bydd y rôl yn gofyn am yr adnoddau a'r pwerau angenrheidiol i gyflawni ei hamcanion. Heb y rhain mae'n anochel y bydd yn methu â chyflawni'r dasg dan sylw. Mae sefydlu adnoddau digonol, annibynnol a chynaliadwy i gefnogi'r rôl hon yn hanfodol i'w hamddiffyn rhag cael ei llyffetheirio gan ymyrraeth wleidyddol. Er mwyn sefydlu ffeithiau pob achos, dylai fod gan y cynghorydd annibynnol y pŵer i gyrchu dogfennau, data a manylion perthnasol heb unrhyw oedi. Byddai rhoi'r pŵer hwn iddynt, yn ogystal â chosbau ystyrlon i'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio, yn helpu i sicrhau y gallant gasglu'r holl ffeithiau perthnasol a chyflawni eu rôl yn briodol.

Wrth fabwysiadu'r model hwn, gallai Cymru osod cysnail o fewn y DU i sicrhau ymreolaeth weithredol i'r swydd sy'n monitro ac yn gorfodi cydymffurfiaeth â Chôt y Gweinidogion.

⁴ Cyflwynodd Transparency International UK dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd i dryloywder lobïo yn 2022 <https://www.transparency.org.uk/publications/submission-welsh-senedd-standards-conduct-committee-lobbying-inquiry>

1.4 ADRODD AM GYFARFODYDD AC YMGYSYLLTIADAU GWEINIDOGOL

Ledled y DU, mae adrodd ar gyfarfodydd ac ymgysylltiadau gweinidogol yn aneffeithiol ac nid yw'n rhoi llawer o fewnwelediad i'r cyhoedd i'r hyn sy'n cael ei drafod mewn cyfarfodydd â rhanddeiliaid. Mae'r oedi wrth adrodd ar y cyfarfodydd hyn hefyd yn lleihau ei werth ac yn ei gwneud yn anos gweld lle y gallai cyfarfodydd fod yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau. Rydym yn argymhell cyhoeddi cyfarfodydd ac ymgysylltiadau gweinidogol yn fisol. Mae dadansoddiad o Ganada yn 2021 yn dangos ei bod yn cymryd 28 diwrnod ar gyfartaledd o ddiwrnod y cyfathrebiad i gyhoeddi gwybodaeth debyg, gyda bron i un o bob deg o'r datgeliadau hyn yn cael eu rhyddhau o fewn pum diwrnod i'r cyfathrebiad. Yn yr UE, mae angen cyhoeddi cyfarfodydd gyda Chomisiynwyr Ewropeaidd o fewn pythefnos iddynt gael eu cynnal.

Rydym hefyd yn disgwyl i'r Gôd y Gweinidogion ei gwneud yn ofynnol i gyfarfodydd sy'n digwydd mewn lleoliad cymdeithasol lle caiff busnes swyddogol ei drafod hefyd gael eu datgan yn gyhoeddus.

Yng Nghymru'n benodol rydym yn gweld diffyg tryloywder gan mai dim ond 'pwy' sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod, ac nid y 'beth' sy'n cael ei drafod sy'n cael ei adrodd. Mae hyn yn llai o wybodaeth nag y mae llywodraethau'r Alban na'r DU yn ei darparu. Byddem yn argymhell crynodeb byr o'r drafodaeth, gan amlinellu unrhyw fudd cyhoeddus y mae'n ei wasanaethu ac yn cynnwys unrhyw ddeilliannau penodol.

Byddem hefyd yn annog gwahanu'r cyflwyniadau Cymraeg a Saesneg, yn hytrach na bod y naill a'r llall yn yr un gell ar daenlen, gan fod hyn yn ei gwneud yn anodd dadansoddi'r data. Yn ôl Data Cymru, "data agored yw data sy'n cael ei gyhoeddi mewn ffordd sy'n caniatáu i unrhyw un gael mynediad rhwydd ato a'i ddefnyddio".⁵ Fel y maent wedi'u fformatio ar hyn o bryd, nid yw setiau data Cyfarfodydd ac Ymgysylltiadau Gweinidogion Cymru yn bodloni'r diffiniad hwn.

1.5 CYNGHORWYR ARBENNIG

Penodir Cyngorwyr Arbennig (*SpAds*) gan Weinidogion ac maent yn atebol iddynt, felly dylent fod yn destun yr un egwyddorion atebolrwydd er mwyn gallu deall yn llawn ddylanwad a gweithredoedd unrhyw Weinidog. Wrth weithredu fel cyswllt uniongyrchol rhwng rhanddeiliaid a Gweinidogion, dylid cofnodi a chyflwyno adroddiadau ar y cyfarfodydd allanol y mae Cyngorwyr Arbennig yn eu cynnal fel ei bod yn bosibl deall yn well unrhyw ddylanwad a gafwyd ar Weinidogion.

1.6 SANCSIYNAU

Dylai Côd y Gweinidogion roi eglurder ynghylch yr ystod o sancsiynau sydd ar gael pe canfyddir bod toriad wedi digwydd. Bydd hyn yn rhoi hyder bod sancsiynau ar gael sy'n ymddangos yn gymesur, gyda'r toriadau mwyaf dybryd yn destun sancsiynau mwy difrifol. Dylai hyn hefyd atal camweddau a chynorthwyo unrhyw broses benderfynu gan y byddai cosb ddisgwyliedig glir.⁶

2. LLAWLYFR Y CABINET

Er mwyn i'r cyhoedd ddeall yn ddigonol sut mae rheolau'n cael eu gweithredu a sut y caiff Gweinidogion eu dwyn i gyfrif, mae angen iddynt allu gweld y canllawiau sy'n perthyn i'r mecanweithiau atebolrwydd hynny.

Mae bod yn glir ynghylch sut mae rhywbeth yn digwydd, er enghraifft, sut mae penderfyniad a wneir gan ddefnyddio ap anfon negeseuon yn cael ei drosglwyddo i'r cofnod swyddogol, yn bwysig

⁵ <https://www.data.cymru/data-agored>

⁶ Ceir rhagor o fanylion am ein hargymhellion ar gyfer gweithredu'n ddwyfys yn [4 isod](#).

er mwyn ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system. Mae'n rhaid *dangos* ymddiriedaeth, nid dim ond ei *datgan*.

Er mwyn darparu ar gyfer y gwaith craffu hwn, rydym yn argymhell bod Llawlyfr Cabinet Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi,⁷ ochr-yn-ochr ag unrhyw ganllawiau perthnasol eraill, gan gynnwys ynghylch sut mae negeseuon e-bost a chyfathrebiadau anffurfiol yn cael eu cofnodi.

3. CODAU GWEINIDOGOL YN Y DU⁸

Er bod codau gweinidogol ar draws y DU yn weddol debyg o ran cynnwys a sut y cânt eu gorfodi, mae yna rai eithriadau nodedig.

3.1 SYLFAEN STATUDOL

Mae Côt Gweinidogion Cyngor Gweithredol Gogledd Iwerddon yn ofynnol dan Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (fel y'i diwygiwyd). Dyma'r unig Gôt Gweinidogol yn y DU sydd ag iddo sail statudol. Mae adran 28A o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 yn datgan bod yn rhaid bod â Chôt Gweinidogol ac mai dim ond gyda chytundeb traws-gymunedol yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon y gellir ei newid. Rydym yn argymhell gosod y Côt Gweinidogol ar sail statudol.

3.2 CYNGHORWYR ANNIBYNNOL

Fel y nodwyd uchod, mae Cymru'n unigryw gan nad oes ganddi gynghorydd annibynnol ar gôd y gweinidogion. Nodwn fod y cynghorydd annibynnol yn yr Alban wedi cynnal ymchwiliad ar ran Prif Weinidog Cymru ar achlysur blaenorol. Byddai rôl a rennir yn rhoi cyfle i gyfuno adnoddau.

Mae Transparency International UK yn argymhell bod pob Côt Gweinidogol ar draws y DU yn gweithredu'r argymhellion a ddarparwyd gennym yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad, er y bydd yn rhaid i'r gwahanol sefydliadau seneddol benderfynu ar lwybrau gorfodi ar sail eu strwythurau eu hunain.

4. CWYNION O DAN Y CÔD GWEINIDOGOL A RÔL CYNGHORWYR ANNIBYNNOL

Fel y nodwyd yn [1.3](#) uchod, rydym yn argymhell y dylid penodi cynghorwyr gwirioneddol annibynnol a'u darparu ag adnoddau a phwerau digonol iddynt ymchwilio i unrhyw achosion honedig o dorri'r côd.

Er mai mater i'r Prif Weinidog bob amser fydd penderfynu pwy ddylai ymgymryd â rolau Gweinidogol, rydym yn argymhell proses 'wrth gefn' pe bai achos lle mae'r Prif Weinidog yn methu â gweithredu ar ganlyniadau unrhyw ymchwiliad annibynnol.

Gallai'r weithdrefn hon ddilyn model y broses bresennol a gynhelir gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd, gyda phenderfyniadau ar sancsiynau'n cael eu cymryd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'u trafod gan y Senedd lawn.

Serch hynny, er mwyn osgoi sefyllfa lle mae gwleidyddion yn meddiannu proses y pwyllgor, rydym yn argymhell bod y Senedd yn dilyn yr esiampl a osodwyd gan y Pwyllgor Safonau yn San Steffan ac yn penodi aelodau lleyg. Dylai'r aelodau lleyg hyn bob amser fod yn rhan o'r gwaith o ystyried cwynion a sancsiynau yn erbyn Aelodau o'r Senedd ac, os yw'r broses yn berthnasol iddynt, Gweinidogion.

⁷ Efallai y bydd angen atal rhai elfennau rhag cael eu cyhoeddi am resymau diogelwch, ond erys yr egwyddor o gyhoeddi rhagweithiol.

⁸ Cynhyrchodd Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban (SPICE) bapur briffio ar Godau Ymddygiad Gweinidogol yn y DU i lywio ystyriaeth y Pwyllgor Cyfranogiad Dinasyddion a Deisebau Cyhoeddus o PE1935 sy'n cynnig trosolwg defnyddiol <https://www.parliament.scot/-/media/files/committees/citizen-participation-and-public-petitions-committee/spice-briefings/spice-follow-up-briefing-for-petition-pe1935.pdf>

5. RÔL GWEISION SIFIL WRTH WEITHREDU'R CÔD GWEINIDOGOL

Mae profiad o'r Alban yn awgrymu na ddylai gweision sifil, er eu bod ar gael ar gyfer rhoi cyngor, fod yn gyfrifol am ymchwilio i achosion honedig o dorri'r côd gweinidogol. Dylai'r broses fod hyd braich o weithrediadau'r llywodraeth, gan y gellid ystyried bod y berthynas rhwng Gweinidogion a gweision sifil yn creu gwrthdaro buddiannau.

Byddai hyn yn sicrhau bod yr ymchwiliad i'w *weld* i fod yn annibynnol yn ogystal â *bod* yn annibynnol ar y llywodraeth. Byddai hefyd yn amddiffyn y gwasanaeth sifil na ddylai fod mewn perygl o gael ei ystyried i fod wedi gwneud unrhyw benderfyniadau pleidiol am yr ymchwiliad yn seiliedig ar eu cyfrifoldebau i lywodraeth y dydd.

6. APIAU NEGESEUON ELECTRONIG A'R CÔD GWEINIDOGOL

Mae dileu negeseuon electronig ers y defnydd cyffredin gan y rhai sydd yn y llywodraeth o gymwysiadau fel WhatsApp wedi peri heriau difrifol i Ryddid Gwybodaeth ac ymchwiliadau dilynol i bandemig Covid-19. Er mwyn osgoi hyn rhag digwydd eto, rydym yn argymhell:

6.1 CADW GWYBODAETH

Dylid adolygu polisïau ar gyfer cadw gwybodaeth i adlewyrchu dulliau cyfathrebu a gweinyddu digidol, a dylid eu cynnwys yng Nghôd Ymddygiad y Gweinidogion gydag eglurder ynghylch sut y dylid trosglwyddo cyfathrebiadau sy'n defnyddio dyfeisiau symudol neu apiau i'r cofnod hanesyddol a'u gwneud yn gyhoeddus.

6.2 DATGELU GWYBODAETH

Dylid trin datgelu gwybodaeth yn gyhoeddus y mae Gweinidogion wedi methu â chofnodi yn unol â'r Côd Ymddygiad fel gweithred o chwythu'r chwiban gyda'r amddiffyniadau cysylltiedig. Dylai unrhyw ymchwiliad i benderfynu a oedd y datgeliad er budd y cyhoedd gael ei gynnal gan ymchwilydd annibynnol, a dylai'r canfyddiadau gael eu gwneud yn gyhoeddus, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd ar gyfer cadw cofnodion yn y dyfodol.

PWY YDYN NI

Transparency International UK yw cangen y DU o Transparency International, sef prif sefydliad gwrth-lygredd anlywodraethol y byd. Rydym yn codi ymwybyddiaeth am lygredd; yn eiriol dros ddiwygio cyfreithiol a rheoleiddiol ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol; yn dylunio offer ymarferol ar gyfer unigolion a chwmnïau sydd am frwydro yn erbyn llygredd; ac yn gweithredu fel canolfan flaenllaw ar gyfer arbenigedd gwrth-lygredd. Rydym yn seilio ein heiriolaeth ar ymchwil gadarn, ac, fel elusen gofrestredig, rydym yn annibynnol ac yn anwleidyddol. Rydym yn cefnogi'r Bartneriaeth Llywodraeth Agored a'r egwyddorion y mae'n eu harddel, ac rydym yn aelod o Rwydwaith Llywodraeth Agored y DU ac yn gyd-gadeirydd Grŵp Llywio Llywodraeth Agored yr Alban.

CYSWLLT

Juliet Swann, Rheolwr Rhaglen y Gwledydd a'r Rhanbarthau

Agenda Item 5

By virtue of paragraph(s) vi of Standing Order 17.42

Document is Restricted